# Adroddiad Arolygu

**Margaret Rose**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

3/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn adnabod y gwarchodwr a'r cynorthwyydd yn dda. Maent yn ymlacio yn eu cwmni ac yn mwynhau'r amser maent yn ei dreulio yn eu gofal. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda ac yn mwynhau dysgu trwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos peth dealltwriaeth o'i rôl i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n rheoli rhyngweithiadau'n dda. Mae'n darparu gwahanol weithgareddau ac adnoddau sy'n hybu datblygiad a dysgu'r plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn saff gan mwyaf. Mae'r adeilad yn groesawgar a chyfeillgar ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau, sy'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae'n rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol ac yn gweithredu systemau digonol ar gyfer cadw cofnodion. Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd gweithio gyda rhieni i wneud penderfyniadau am lesiant eu plentyn. Mae hi wedi sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir gyda'r rhieni ac wedi adeiladu partneriaethau cadarnhaol iawn â nhw.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac wedi ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gyda'r gwarchodwr plant, y cymhorthydd a'i gilydd. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn chwarae'n rhydd gyda'r teganau a gynigir ac yn gofyn yn hyderus am gefnogaeth neu os oes angen adnoddau arnynt. Er enghraifft, maent yn gofyn i'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd am ddalennau ychwanegol o bapur a lliwiau wrth baentio. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda ac maent yn dangos diddordeb yng ngweithgareddau ei gilydd. Mae'r plant yn amlwg wedi ymlacio, yn gyfforddus ac yn fodlon yn y lleoliad. Mae ymddygiad y plant yn dda.

Mae'r plant yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae ganddynt beth rheolaeth dros sut maent yn treulio eu hamser ac maent yn mynegi eu hanghenion yn briodol. Er enghraifft, mae teganau ac adnoddau ar gael i'r plant mewn ystafell chwarae ddynodedig yn y lleoliad. Mae llais y plant yn gryf, er enghraifft, maent yn cael dewis ble i eistedd amser cinio, *“Dwi eisiau eistedd yno”* ac yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â lliwiau paent wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd crefft, *“Efallai gwna i gymysgu rhai.”* Mae pob plentyn yn canolbwyntio'n dda, gan gynnal diddordeb yn y pethau y maent wedi dewis eu gwneud am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd paentio am yr Hydref. Mae llais y plant yn cael ei gydnabod. Mae’r plant yn dewis llyfrau stori i’r gwarchodwr plant eu darllen, ac maent yn mwynhau arwain y chwarae, gan gynnwys y cynorthwyydd wrth iddynt gymryd rhan mewn chwarae dychmygol, gan smalio mai ci ar dennyn ydyw, *“Dere 'mlaen, gi."*

Mae'r plant yn gyfarwydd â'u trefniadau arferol ac yn dangos lefel addas o annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn gwybod ble i gadw eu heiddo a pha deganau y caniateir iddynt fynd atynt yn annibynnol. Cânt fynediad at adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt, ac maent yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain yn ogystal â gyda'i gilydd. Maent yn mynd i mewn ac yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ac yn golchi eu dwylo. Amser cinio, mae’r plant yn ceisio agor eu pecynnau yn annibynnol, bwyta eu bwydydd bys a bawd ac mae'r plant ifanc yn bwydo iogwrt eu hunain â llwy. Mae'r plant yn dangos sgiliau echddygol manwl da ac yn mwynhau peintio a defnyddio sisyrnau. Roedden nhw'n sgwrsio'n hapus â ni gan fynegi eu mwynhad yn y lleoliad.

**Gofal a Datblygiad** **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw’r plant yn ddiogel. Mae ei dealltwriaeth o amddiffyn a diogelu plant yn dda. Mae hi'n ymateb yn dda i senarios posibl. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau, gan gynnwys amseroedd a dyddiadau. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth boddhaol o sut i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rhoi gweithdrefnau ar waith i ddiwallu anghenion gofal personol, diogelwch a llesiant y plant. Er enghraifft, mae'n golchi ei dwylo ar ôl newid cewyn yn unol â gweithdrefnau rheoli heintiau. Fodd bynnag, ni ddefnyddir cyfarpar diogelu personol priodol, er enghraifft, defnyddio ffedog, i newid y plant yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau. Mae hi'n darparu bwyd os oes angen, ond mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod â bwyd o gartref. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i yfed dŵr amser cinio a bob amser yn ystod chwarae rhydd. Mae gan y gwarchodwr plant hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, fodd bynnag, nid oedd gan y cynorthwyydd gwarchod plant yn ystod yr ymweliad. Yn ystod yr ymweliad, gadawyd y cynorthwyydd gwarchod plant â gofal grŵp o blant ar ei phen ei hun tra bod y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant a darparodd dystiolaeth fod y cynorthwyydd gwarchod plant wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn llwyddiannus ac roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi diweddaru ei hyfforddiant Cymorth Cyntaf. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif hylendid bwyd gyfredol a hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant, ond nid oedd gan y cynorthwyydd. Roedd gan y gwarchodwr plant bolisi ac ymwybyddiaeth o’r ddyletswydd atal mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o radicaleiddio.

Mae'r gwarchodwr a'r cynorthwyydd yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddynt gysylltiadau cadarnhaol ac agos â'r plant. Er enghraifft, roedd plentyn a oedd wedi dechrau yn y lleoliad yn ddiweddar wedi ymgartrefu'n llwyr ac yn hyderus o hapus. Gwelsom ryngweithio hyfryd rhwng y gwarchodwr plant, y cynorthwyydd a'r plant yn ystod yr ymweliad. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael digon o opsiynau a bod eu llais yn cael ei gydnabod, er enghraifft yn ystod amser cinio, gofynnodd y gwarchodwr plant i’r plant a oeddent eisiau cymorth i dorri eu cig, “*Ydych chi eisiau gwneud mwy o dorri? ?”* Maent hefyd yn barchus o ran anghenion personol ac yn gofyn i'r plant a yw'n iawn i sychu eu trwyn cyn gwneud hynny, *“Ydy hi'n iawn os ydw i'n sychu dy drwyn?”* Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn rheoli ymddygiadau y plant yn dda. Maen nhw’n tynnu sylw'r plant sydd eisiau’r un adnoddau trwy esbonio rhannu a chynnig tegan arall i’r plant ei rannu*, “Rydyn ni’n rhannu onid ydyn ni? Gallwn ni i gyd gael rhai.”* Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fod yn ymwybodol o'u hamgylchedd trwy eu hannog i fod yn ofalus gyda'r bwydydd tegan plastig sy'n cael eu gadael ar y llawr.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau addas i gadw'r plant yn brysur, wedi'u hymgysylltu ac yn hapus. Yn ystod ein hymweliad, bu’r gwarchodwr plant yn hybu datblygiad iaith drwy adrodd straeon ac enwi lliwiau a gwrthrychau eraill gyda’r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio Cymraeg achlysurol ar adegau. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau wythnosol, fodd bynnag, nid yw bob amser yn ystyried datblygiad

sgiliau yn ei chynllunio. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi cynnydd y plant trwy gadw cofnod o weithgareddau'r plant a'u cyflawniadau.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae amgylchedd y cartref yn groesawgar ac mae ganddo ystafell chwarae bwrpasol ar gyfer gwarchod y plant. Mae gan y plant hefyd fynediad i'r lolfa a'r toiled i lawr y grisiau. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad yw'r plant yn cael mynediad i'r gegin a bod giât diogelwch yn cyfyngu ar y mynediad. Mae'r plant yn mynd i'r ardal allanol ac mae'n cynnwys tŷ chwarae mawr, patio a lawnt. Mae deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel ac allan o gyrraedd.

Mae'r lleoliad yn ddiogel gyda'r mynedfeydd allanol ar glo bob amser, fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, gwelsom fod yr allwedd wedi'i gadael yn y drws. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant fod yr allwedd bellach yn cael ei thynnu oddi ar y drws a'i storio ar lefel uwch. Mae ymwelwyr â'r lleoliad yn llofnodi wrth fynd i mewn ac allan ac mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o bresenoldeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau gwiriadau diogelwch perthnasol bob dydd. Mae asesiadau risg priodol yn eu lle ac yn cynnwys y safle, gweithgareddau a gwibdeithiau. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, codwyd ein pryderon ynghylch diogelwch yr ardal newid cewynnau. Cywirwyd hyn yn dilyn yr ymweliad ac anfonwyd tystiolaeth o newidiadau at Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal driliau tân rheolaidd sy'n cael eu hamseru a'u gwerthuso. Mae pecynnau cymorth cyntaf yn cael eu gwirio'n rheolaidd ac maent ar gael ar gyfer y lleoliad a gwibdeithiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r lleoliad i ddarparu adnoddau da ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plant. Mae'r holl adnoddau'n drefnus ac yn hygyrch i'r plant. Er enghraifft, mae gan y plant fynediad at gemau a theganau chwarae rôl. Mae teganau eraill yn cael eu storio ar lefel uwch. Mae’r holl adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae bwrdd lefel isel ar gael i'r plant wneud gweithgareddau crefft a bwyta eu prydau.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei lleoliad yn briodol. Mae ganddi brofiad sylweddol, mae wedi cwblhau pob hyfforddiant gorfodol ac wedi manteisio ar y cyfle i gwblhau cyrsiau ychwanegol. Mae gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer holl aelodau’r cartref yn ogystal â chynorthwywyr. Mae ffeiliau'r staff yn eu lle gyda'r dogfennau angenrheidiol. Gwnaethom drafod sesiynau goruchwylio ac arfarnu staff gyda'r gwarchodwr plant a chanfuom nad oedd y rhain ar waith. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant fod sesiynau goruchwylio wedi'u cynnal gyda'r ddau gynorthwyydd gwarchod plant, ond nid oedd unrhyw arfarniadau hyd yma. O ganlyniad, nodir hyn fel maes i'w wella a byddwn yn dilyn trywydd hwn yn yr arolygiad nesaf. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar gael ac maent yn adlewyrchu arfer cyfredol. Adolygwyd polisïau a gweithdrefnau yn ddiweddar. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisi diogelu mewn lle ac yn amlinellu'r angen i adrodd am unrhyw bryderon a allai godi.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu arferion diogel. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys yn ogystal â'r yswiriant cerbyd. Mae trefniadau cadw cofnodion ar gyfer y plant ar waith yn bennaf. Er enghraifft, mae gan y gwarchodwr plant y contractau a'r wybodaeth berthnasol am anghenion unigol y plant, ond nid oedd pob caniatâd ar waith yn ystod yr ymweliad. Unionwyd hyn yn syth ar ôl yr ymweliad. Gwelsom gofrestrau a chofnodion dyddiol a chanfuom nad oedd y rhain yn dangos yn glir pwy oedd yn gofalu am y plant bob amser, er enghraifft yn ystod y teithiau yn ôl ac ymlaen o’r ysgol. Rhoddwyd hwn ar waith yn dilyn yr ymweliad. Mae cofnodion yn dangos bod cymarebau oedolion i’r plant yn cael eu cynnal, fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad arolygu, aeth y gwarchodwr plant y tu hwnt i’r niferoedd uchaf unwaith pan yr oedd hi'n mynd â'r plant yn ôl ac ymlaen o'r ysgol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi ymrwymo i wella ei gwasanaeth ac mae'n gofyn yn weithredol am adborth gan y rhieni a'r plant trwy anfon holiaduron. Mae’n darparu adroddiad ansawdd gofal i AGC bob blwyddyn, sy’n cynnwys barn y rhai sy’n defnyddio ei gwasanaeth. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn dangos safbwyntiau cadarnhaol. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau da â’r rhieni. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn ar y gofal a roddir, *“Rwy’n hapus gyda phopeth. Maen nhw'n wych. Rydyn ni’n cael digon o wybodaeth ac rwy’n teimlo bod fy mhlentyn yn datblygu’n dda.”* Dywedasant wrthym fod y cyfathrebu'n dda. Maent yn derbyn adborth llafar wrth gasglu eu plant.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Y cwblheir hyfforddiant gorfodol gan bob aelod o staff, er enghraifft Amddiffyn Plant a Hylendid Bwyd

A2: Caiff arferion hylendid mewn perthynas â newid cewynnau eu gwella ymhellach

A3: Bod cynllunio gweithgareddau yn bwrpasol ac yn seiliedig ar fedrau

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd unrhyw sesiynau goruchwylio nac arfarniadau wedi'u cynnal gyda chynorthwywyr. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw cofnodion yn nodi pwy sy'n gofalu am y plant bob amser. | Cyflawnwyd |
| 25 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio gan nad oedd pob risg wedi'i nodi mewn perthynas â diogelwch y plant. | Cyflawnwyd |
| 24 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oes bob amser un swyddog cymorth cyntaf cymwys yn bresennol wrth ofalu am blant. | Cyflawnwyd |
| 20 (1) (b) | Nid oedd y gwarchodwr plant yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer gofal, goruchwyliaeth a thriniaeth plant bob amser. | Cyflawnwyd |
| 30 (1) (a) Atodlen 3.08 | Nid oedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnodion llawn yn ymwneud â rhoi meddyginiaeth. | Cyflawnwyd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 22/11/2022